CYNGOR GWYNEDD

GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR) 1995

(FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR ETC) (DIWYGIO) (CYMRU) 2022)

CYFARWYDDYD NA CHAIFF EFFAITH AR UNWAITH O DAN ERTHYGL 4(1) YN CYFYNGU AR DDATBLYGU A GANIATEIR YN ARDAL AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL GWYNEDD

YN GYMAINT Â BO

1. Cyngor Gwynedd ("y Cyngor") yw'r awdurdod cynllunio lleol at ddibenion yr ardal o dir a nodir yn y Cyfarwyddyd hwn.
2. Mae'r Cyngor wedi'i fodloni ei bod yn fuddiol i beidio ag ymgymryd â datblygiad o'r disgrifiad(au) a nodir yn Atodlen 1 isod ar dir yn Sir Gwynedd fel y dangosir wedi'i amlinellu mewn coch ar y cynllun yn Atodlen 2 ("y Tir") oni bai bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gais a wnaed o dan Ran III Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd).

FELLY YN AWR mae'r Cyngor yn unol â'r pŵer a roddwyd iddynt gan Erthygl 4(1) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn cyfarwyddo drwy hyn na fydd y caniatâd a roddwyd gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwnnw yn gymwys i ddatblygiad ar y Tir hwnnw o'r disgrifiad a nodir yn Atodlen 1 isod.

Gwneir y Cyfarwyddyd hwn o dan erthygl 4(1) o'r Gorchymyn hwnnw a chaiff ei gadarnhau yn unol â'r Gorchymyn, a daw i rym ar 1af o Fedi 2024.

Atodlen 1 – Cyfyngu ar Hawliau Datblygu a Ganiateir

Y disgrifiadau a ganlyn o ddatblygiadau y cyfeirir atynt yn Nosbarth I, Rhan 3, Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwnnw:

(1) Datblygiad sy'n cynnwys newid defnydd adeilad

(a) o ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —

(i) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;

(ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;

(iii) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yn yr Atodlen honno;

(iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;

(b) o ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd, a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —

(i) ----------

(ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;

(iii) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;

(iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn i Ddosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yn yr Atodlen honno;

(c) o ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —

(i) ----------

(ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;

(iii) ----------

(iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn i Ddosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;

(d) o ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnyddiau sy'n disgyn o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) a Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —

(i) ----------

(ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;

(iii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;

(iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;

(e) o ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnyddiau sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd, a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) a Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —

(i) ----------

(ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;

(iii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;

(iv) ----------

Atodlen 2 – Cynllun o ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd



Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**)

CYNGOR GWYNEDD ar hwn)

ym mhresenoldeb:-)





41,567

Llofnodwr Awdurdodedig

Ar y 19eg dydd o Orffennaf 2023